

# Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council

Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd nos Lun 16/11/2015  
Minutes of the meeting held on Monday evening 16/11/2015

## Presennol / Present:

Derek Owen (Cadeirydd / Chair), Elfed Jones, David Livingstone, Carys Davies, Dei Owens, Tony Hughes

**Cynghorwyr Sirol/ County Councillors:** Cyng/Cllr William Hughes,

## Yn Bresennol / In Attendance:

Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk), Eira Parry (Cyfieithu/Translation), Richard Foxhall (Horizon), Rhian Whitehead (Mynwent y Rhyd)

## Ymddiheuriadau / Apologies:

Marilyn Hughes, Rose Griffiths, Jack Longman, Julia Dobson, Cyng/Cllr Richard Jones, Cyng/Cllr Aled M Jones

### **1 Croeso / Welcome**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Derek Owen a diolchwyd i bawb am fod yn bresennol. Esboniwyd y byddai cynrychiolaeth o'r Grid Cenedlaethol yn ymuno a'r cyfarfod ar gyfer trafodaeth ar yr eitem ddiwethaf.

*Derek Owen welcomed everyone to the meeting and thanked them for their attendance. It was explained that representation from the National Grid will be joining the meeting to discuss the last agenda item.*

### **2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest**

Cynllunio (cyffredinol) / Planning (general) – Cyng/Cllr William Hughes

### **3 Cofnodion Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir. Cynigwyd gan Elfed Jones eiliwyd gan Dave Livingstone.

*The minutes were accepted as a true record. Proposed by Elfed Jones, seconded by Dave Livingstone.*

### **4 Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes**

#### **4.1 Sedd Wag / Empty Seat**

Mae'r hysbysiad cyntaf wedi ei arddangos, mae gan aelodau'r gymuned nes Tachwedd 19 i gysylltu a'r Cyngor Sir os am etholiad. Os na fydd enwau wedi eu rhoi ymlaen am etholiad, bydd ail hysbysebiad a chyfle i'r Cyngor Cymuned gyfethol aelod o'r gymuned.

*The first advert has been displayed, members of the community have until 19<sup>th</sup> November to contact the County Council should they wish for an election. If no names are put forward, a second advert will be displayed and an opportunity for the community council to co-opt a member of the community.*

#### **4.2 10-12 Stryd Fawr / 10-12 High Street**

Bydd Hampson Lewis yn cwblhau arolwg llawn ar yr adeilad ddydd Mercher am gost o £500 + tax. Mae cais wedi ei gyflwyno i Cronfa Padrig am £13500 sef prynnu'r adeilad ac unrhyw gostau yn ymwneud a hynnu e.e. costau cyfreithiol. Bydd Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd yn gweithredu ar ran y ddwy ochr.

*Hampson Lewis will be completing the survey on Wednesday at a cost of £500+vat. An application has been submitted to Cronfa Padrig for £13500, being the cost of purchasing the building and associated fees. Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd will act on behalf of both parties.*

#### **4.3 Llwybr Carrog Footpath**

Mae cais wedi ei gyflwyno i Horizon am £1500, ond nid ydynt yn cyfarfod i drafod ceisiadau nes ddechrau mis Rhafgyr. Mae £1500 wedi ei glustnodi gan Coed Cymru sydd angen cadarnhad cyn diwedd y mis bod gweddill yr arian sydd ei angen wedi ei sicrhau. Holl aelodau yn cytuno y dylai'r Cyngor lenwi'r bwloch nes cael ymateb gan Horizon.

*An application has been submitted to Horizon for £1500, but the panel doesn't meet until the beginning of December. £1500 has been allocated by Coed Cymru but they require confirmation of match funding by the end of the month. All members present agreed that the Council should agree to fund the shortfall until a response is obtained from Horizon.*

#### **4.4 Cofeb / Memorial**

Mae Mr Eric Torr yn parhau i bori drwy hen ddogfennau a chofnodion y Cyngor yn chwilio am fwy o wybodaeth yn ymwneud ag hanes y gofgolofn.

*Mr Eric Torr continues to trawl through documents and Council minutes looking for more information in relation to the history of the Memorial.*

#### **5 Mynwent Y Rhyd Cemetery**

Croesawyd Rhian Whitehead i'r cyfarfod yn dilyn cwynion yn y pentref ac ar facebook yn ymwneud a gwlybanaeth yn y fynwent. Mae llawer o wariant i'w weld yn llefydd arall yng Nghemaes – meinciau ac ati, ac mae'r broblem o ddwr yn sefyll yn y fynwent yn parhau.

Cafwyd peth trafodaeth am y broblem yn gyffredinol. Fe gadarnhaodd Cyng Wil Hughes a Derek Owen eu bod wedi bod mewn cysylltiad a swyddogion y Cyngor Sir amryw o weithiau, ac wedi cyfarfod a nhw yn y fynwent. Deallwyd bod trafodaethau a chynlluniau posib wedi eu cytuno ond bod cyfyngiadau Cyfoeth Naturiol Cymru ynglyn a safon y dwr ac i le all gael ei symud wedi rhoi stop ar y gwaith.

Cytuno i'r clerc anfon llythyr ar ran y Cyngor Cymuned, ac i'r cadeirydd a Cyng Wil Hughes gysylltu eto a'r swyddogion yn Llangefni.

*Rhian Whitehead was welcomed to the meeting following a number of complaints in the village and on facebook regarding the surface water in the cemetery. A lot of expenditure is seen to have taken place elsewhere in the village – benches etc, and yet the issue of drainage and standing water in the cemetery persists.*

*The issue in general was discussed at length. Cllr Wil Hughes and Derek Owen confirmed that they had been in contact with officers at the County Council on numerous occasions, and had also met them on site. It was understood that agreements and possible solutions had been drawn up but National Resources Wales' restrictions on water quality and where it can be drained had put a stop to the project.*

*Agreed for the clerk to write a letter on behalf of the Council, and for Cllr Wil Hughes and the Chair to contact the officers at Llangefni again.*

#### **6 Wylfa Newydd**

Deallwyd nad oedd Richard Foxhall wedi bod yn dda iawn yn ddiweddar ac fe ddymunwyd y gorau iddo am wellhad buan. Cafwyd grynodeb gan Mr Foxhall o weithgareddau Horizon yn yr ardal ers y cyfarfod diwethaf a'r hyn a ddisgwylir dros yr wythnosau nesaf.

Cafwyd gadarnhad y bydd Mr Alan Raymant yn ymweld a safle Wylfa yn fuan yn y flwyddyn newydd ac fe fydd cyfle i gwrdd ag o ac eraill pryd hynnu. Diolchwyd i Mr Foxhall am ei amser ac am ddod i'r cyfarfod.

*It was understood that Richard Foxhall had not been well of late and he was wished a speedy recovery. A summary was given by Mr Foxhall of Horizon's activities since the last meeting and what is expected to take place over the next few weeks.*

*It was confirmed that Mr Alan Raymant will be visiting the Wylfa site early in the new year, and there will be an opportunity to meet with him and others at that time. Mr Foxhall was thanked for attending the meeting.*

## 7 **Cyllid / Finance**

Ni chafwyd cyfarfod cyllid ym mis Tachwedd. Mae dal angen penodi cynrychiolydd arall i ymuno a'r pwyllgor cyllid gan fod Ricky Hughes wedi ymddiswyddo.

Cymeradwywyd y taliadau canlynol:

£355.88 Dwr Cymru (toiledau)  
£1092.00 Superclean (toiledau)  
£600.00 Hampson Lewis (arolwg)  
£37.38 SSE (toiledau)  
£22.58 SSE (toiledau)

*The finance committee did not meet in November. There is still the need to appoint another member to join the committee following Ricky Hughes' resignation.*

*The following payments were approved:*

£355.88 Dwr Cymru (toilets)  
£1092.00 Superclean (toilets)  
£600.00 Hampson Lewis (survey)  
£37.38 SSE (toilets)  
£22.58 SSE (toilets)

## 8 **Cynllunio / Planning**

8.1 Nodwyd penderfyniadau diweddar y Cyngor Sir / Recent County Council planning decisions were noted –

- Angorfa, Cemaes – caniatad / approved
- 6 Castellior – caniatad / approved
- Iwla, Cemaes – caniatad / approved

8.2 Cyflwynwyd un cais / *One planning application was presented*

- 20C27E/2 (Wylfa Newydd Site Office) – dim gwrthwynebiad / no objection.

### 8.3 **Rhyd y Groes**

Cafwyd gydnabyddiaeth gan Natural Power Consultants eu bod wedi derbyn y llythyr ar ran Cyngor Cymuned Llanbadrig a Chyngor Tref Amlwch. Byddent yn ymateb yn swyddogol cyn gynted a phosib.

*An email was received from Natural Power Consultants acknowledging receipt of the letter sent in partnership with Amlwch Town Council. They will provide an official response as soon as possible.*

## 9 **CCTV**

Cytuno trafod y pwnc eto ym mis Ebrill. / *Agreed to discuss the matter again in April.*

## 10 **Gohebiaeth / Correspondence**

10.1 Horizon – copiau o'r gwybodaeth sydd yn cael ei anfon at drigolion lleol. Bydd y gymorthfa nesaf 14/12/15 yn y Neuadd Bentref.

*Horizon – copies of information sent out to local residents. The next surgery will take place 14/12/15 at the Village Hall.*

10.2 Ymgynghoriad llyfrgelloedd – mae angen ymateb erbyn diwedd Tachwedd.

*Libraries consultation – there is a need to respond by the end of November.*

10.3 Eisteddfod Genedlaethol Mon 2017 – gwybodaeth am dargedau arian i'w codi. Trosglwyddo i'r pwyllgor cyllid.

*National Eisteddfod – Anglesey 2017 – information regarding fundraising targets; transferred to the finance committee.*

- 10.4 Pwyllgor Safonau – gwybodaeth am unigolion sydd wedi eu henwebu i gynrychioli cyngorau tref a chymuned. Bydd cyfarfod 1/12/15 yn Llangefni ar gyfer penodi dau aelod. Cytuno enwebu John Chorlton a John Roberts.

*Standards Committee – information about individuals nominated to represent town and community councils on the committee. A meeting is to take place at Llangefni 1/12/15 to appoint two representatives. Agreed to support John Chorlton and John Roberts.*

## **11 Unrhyw Fater Arall / Any Other Business**

- 11.1 Gwylfan Pig y Barcud – deallwyd bod angen cais ffurfiol er mwyn gwneud gwylfan or fath, ond bod y swyddogion yn hapus mewn egwyddor.

*Pig y Barcud Viewpoint – it was understood than an official request is required, however officers have agreed in principle.*

- 11.2 Metr Trydan – mae'r metr ger McColls wedi ei symud ond mae wedi ei osod yn y lle anghywir ac felly angen ei symud eto.

*Electric Meter – the meter by McColls has been moved but, being in the wrong location, it has to be moved again.*

## **12 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting**

Bydd y cyfarfod llawn nesaf nos Lun Rhagfyr 14, 2015 am 7 o'r gloch yn y Llyfrgell. Bydd cyfarfod y pwyllgor cyllid hefyd wythnos yn gynt ar nos lau Rhagfyr 10.

*The next full council meeting will be on Monday evening December 14<sup>th</sup> 2015 at the Library for 7pm. The finance committee will also meet a week early on Thursday December 10<sup>th</sup>.*

## **13 Grid Cenedlaethol / National Grid**

Croesawyd Tim Inglehearn a John Shawney i'r cyfarfod ar ran y Grid Cenedlaethol.

Roedd aelodau'r Cyngor wedi cael cyfle i fynychu'r sesiwn gwybodaeth yn y pentref cyn cyfarfod a'r cynrychiolwyr ac felly roedd nifer o gwestiynau penodol i'w gofyn i'r cynrychiolwyr.

Deallwyd bod rhesymau technegol yn ogystal a chost y prosiect yn golygu na fydd posib gosod ceblau o dan y mor o Wylfa i'r tir mawr, ac felly peilonau oedd yr unig opsiwn oedd ar ol. Cwestiynnwyd pam na all y ceblau cael eu rhoi dan y ddaear. Teimlai'r Grid y byddai'r gost a'r amser i gwblhau'r gwaith yn erbyn yr opsiwn yma. Byddai hefyd angen strwythyrau ychwanegol yn Wylfa a/neu ym Mhentir.

Mae trigolion Mon yn derbyn bod angen symud trydan o'r ynys i'r tir mawr rhywsut, ac eisiau i'r ceblau fynd o dan y ddaear. Teimlai'r aelodau y buasia'r mwyafrif o drigolion Mon yn derbyn opsiwn o geblau dan ddaear yn hytrach nag ail res o beilonau.

Nodwyd y byddai pedwar peilon posib yn ardal Cemaes a Mechell yn unig, gyda dros 100 o beilonau i gario'r ceblau ar draws yr Ynys. Nid yw'r Grid wedi penderfynnu sut i gael o'r Fenai at Pentir eto. Deallwyd bod y rhan fwyaf o gleblau yng Ngwynedd tan ddaear, a bod arian wedi ei sicrhau i dynnu rhai peilonau ym Mhenrhyndeudraeth.

Teimlai'r Cyngor nad oedd y Grid yn gwrando ar y cymunedau lleol o gwbl. Mae'r trigolion, y cyngorau cymuned a'r Cyngor Sir yn erbyn peilonau ond eto mae'r Grid yn parhau i wrthio'r opsiwn gan bwysleisio ar gost y prosiect. Mae ardal Llanbadrig yn gwynebu datblygiad Wylfa Newydd, Fferm Wynt Rhyd y Groes, Fferm Arae Heulol ac Ynni Mor, heb son am orfod gwynebu peilonau hefyd – siawns bod cyfle i roi'r ceblau tan ddaear ac achub ychydig ar economi pentref bach lan y mor sydd yn ddibynnol ar dwristiaeth.

Nodwyd hefyd pryderon iechyd yn ymwneud a'r maes magnetig o amgylch y peilonau a hefyd diogelwch y ceblau eu hunain. Ni fyddai unigolion yn cael gweithio oriau hir mewn ffatri o dan yr amgylchiadau heb eu monitor yn agos, ond mae'n iawn i deuleuoedd fyw yno, a hynnu wedi gwerth eu caretrefi ddirywio. Deallwyd y byddai'r Grid yn cyfweld a't trigolion agosaf at unrhyw ddatblygiad. Mae trigolion wedi bod yn cwyno ers 2012 ond heb ymateb na chydabyddiaeth.

Teimlai'r trigolion lleol y byddai'r Grid yn gwrando ar gymuned yn ne Lleogr ond yn anwybyddu yr hyn sydd gan gymuned wledig gogledd Mon ei ddweud.

Cafwyd trafodaeth yn ymwneud ag anghenion Horizon a'u asesiad risg i allu cael symud trydan i fewn i'r rhwydwaith. Teimlai'r aelodau o'r wybodaeth a gafwyd bod Horizon yn datgan beth oedd y Grid am gael gwneud.

Deallwyd bod chwe prosiect arall yn y DU, ac mai peilonau sydd yn cael eu trafod yno hefyd. Bydd angen cysylltu a'r uwch reolwyr yn y Grid er mwyn gallu cael unrhyw gadarnhau a thrafod opsiynnau eraill.

Bydd y clerc yn cwblhau ffurflen ymgynghori'r Grid ac yn ei anfon i fewn ar ran y Cyngor cyn gynted a phosib yn pwysleisio'r angen i roi'r ceblau yn ardal Cemaes/Llanbadrig tan ddaear. Deallwyd bod angen cyn gymaint o ymateb a phosib ac y byddai'n fanteisiol pe bai unigolion hefyd yn gallu ymateb.

Deallwyd bod dros 100 o lythyrau wedi eu arwyddo yn y gymuned mewn llai na tair awr yn datgan bod pobl yn erbyn peilonau ac am weld y ceblau tan ddaear.

Nid oedd y cynrychiolwyr yn gallu cadarnhau a fyddai taliadau yn cael eu gwneud i'r ffermwyr am gael gosod peilonau ar eu tir. Os yw'r fasiwn daliadau yn cael eu gwneud, siawns y byddai'r arian yma yn gallu cael ei ddefnyddio i roi'r ceblau tan ddaear.

Cadarnhawyd y byddai'r peilonau cyfredol yn cael eu defnyddio i ddod a thrydan i fewn i'r ynys wedi i Wylfa beidio a chynhyrchu.

Diolchwyd i'r cynrychiolwyr am fynychu'r cyfarfod gan ddatgan siom yr aelodau nad oedd atebion i'w cael ac nad oedd y Grid yn gwrando ar y cymunedau a thrigolion lleol. Nid oes symud ymlaen ers y cyfarfod diwethaf gyda aelodau eraill o dim y Grid deunaw mis yn ol.

*Tim Inglehearn and John Shawney were welcomed to the meeting on behalf of the National Grid.*

*Members of the Council had been given the opportunity to visit the information sessions in the community prior to this meeting and as such there were specific questions to ask the representatives.*

*It was understood that technical issues as well as the cost of the project meant that it would not be possible to follow a sub-sea route from Wylfa to the mainland; as such the only option left available being overhead cables and pylons. The question was raised as to why the cables could not be placed underground. The Grid felt that the cost and timescale to complete the project would not be favourable for this option.*

*The residents of Anglesey understand the requirement to move electricity from the island somehow, and wish for the cables to go underground. The members felt that the majority of Anglesey residents would accept the option of undergrounding rather than a second row of overhead lines.*

*It was noted from the proposals that there would be four pylons in the Cemaes and Mechell area alone, with over 100 pylons to carry cables across the island. The Grid is yet to decide how to get from the Menai to Pentir. It was understood that the majority of cables in Gwynedd are underground, and that funding has been sought to take down some of their existing pylons at Penrhyndeudraeth.*

*The Council did not feel that the Grid were listening to local communities at all. Residents, Community Councils and Anglesey County Council are opposing pylons yet the Grid continues to push that option emphasising the cost of the project. The Llanbadrig area is facing the development of Wylfa Newydd, Rhyd y Groes Wind Farm, a Solar Farm and Tidal energy without also having to face the installation of additional pylons – surely there is an opportunity to put the cables underground and safeguard a little of the sea-side village, dependent on tourism's economy?*

*Health and safety concerns were raised with regard to the magnetic field surrounding the pylons, and also the safety of the cables themselves. An individual would not be allowed to work long hours in a factory under such conditions without being closely monitored, yet families will be allowed to live in close proximity, and that following a reduction in the value of their property. It was understood that the Grid will be speaking to those residents living closest to the proposed route. Residents have been complaining since 2012 without response of acknowledgement.*

*Local residents feel that the Grid would listen to a community in south east England, but are ignoring the requests of a rural community in north Anglesey.*

*A discussion took place regarding Horizon's needs and risk assessment to be able to move electricity away from Wylfa safely into the network. Members felt from the information given that Horizon were imposing what the Grid should do.*

*It was understood that there were six other projects in the UK, and that pylons were being discussed for all six. In order to discuss any other possible options, contact must be made with senior managers at the Grid.*

*The clerk will complete the feedback form and submit as soon as possible emphasising the need to install Cemaes/Llanbadrig cables underground. It was understood that the more feedback would be beneficial and individuals were encouraged to respond.*

*It was understood that over 100 letters had been signed in the community within a three-hour timeframe declaring that people were against pylons and wished to see the cables underground.*

*The representatives could not confirm whether funding would be made available to landowners for citing the pylons on their land. If such payments are available, can that funding not be used to place the cables underground?*

*It was confirmed that the current pylons would remain in place to bring electricity back onto the island once Wylfa ceases to generate.*

*The representatives were thanked for attending the meeting but members were disappointed that no answers were available, and that the Grid were not listening to communities and local residents. There has been no progress since the last meeting with Grid representatives eighteen months ago.*

*Bu'r cyfarfod orffen am 20.45 / The meeting closed at 20.45.*